PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 403 | Tachwedd 2017




**Y gwragedd ar wib!**

t.6



**Cylch Meithrin yn 50 oed**

t.14-15



**Dathlu Calangaeaf**

t.7

# Lansio llyfr newydd



Cafodd llyfr newydd Wynne Melville Jones ei lawnsio gan Ben Lake, Aelod Seneddol Ceredigion, mewn arddangosfa o ddarluniau Wynne yn Oriel Rhiannon Tregaron brynhawn Sadwrn Hydref 28ain. Daeth pobol o bell ac agos i'r achlysur a darparwyd adloniant gan Bois y Fro, Côr Merched Soar a'r cyflwynydd oedd Sulwyn Thomas. Mae'r llyfr a gyhoeddwyd gan wasg *Y Lolfa* erbyn yn y siopau yn cynnwys dros gant o ddarluniau ac yn adrodd y stori y tu ôl i nifer o'r lluniau. Mae'r gyfrol 120t. *Darluniau o Gymru* sy'n ddwyieithog yn cynrychioli pum mlynedd o waith ac am bris o £12.99 gall wneud anrheg Nadolig delfrydol.



## Sefydlu

Lluniau: Iestyn Hughes

Dyma'r rhai a gymerodd ran yng Nghyfarfod Sefydlu'r Parch Ddr Watcyn James yn weinidog ar Ofalaeth y Garn

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**IS-GADEIRYDD – Richard Owen,**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch ☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Rhagfyr – Deunydd i law: Rhagfyr 8. Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 20**

**TACHWEDD 15** Nos Fercher Yr Athro Peredur Lynch yn trafod ei gyfrol *Caeth a rhydd* (Gwasg Carreg Gwalch) Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

**TACHWEDD 17** Dydd Gwener Diwrnod Plant Mewn Angen

**TACHWEDD 17** Nos Wener Gareth Owen 'Rhyw lun o hunangofiant'. Cymdeithas Lenyddol y Garn yn y festri am 7.30

**TACHWEDD 25** Bore Sadwrn Bore coffi a stondin amrywiol yn Festri'r Garn; elw tuag at Feiciau Gwaed Cymru a Chapel y Garn; 10.00–12.00

**TACHWEDD 26** Nos Sul Cyflwyniad o bryddest Lyn Ebenezer 'Tir Neb' yn Theatr Arad Goch am 7.30. Noson wedi'i threfnu gan Ffrindiau Pantycelyn.

**TACHWEDD 28** Nos Fawrth Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Fforwm ecodyfi - 7.30 yn y Clwb Bowlio, Machynlleth. Croeso i bawb. info@ecodyfi.org.uk

**RHAGFYR 1** Nos Wener Noson Goffi, Raffl Fawr ac Adloniant gan Merched Bro'r Mwyn yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor am 7.00

**RHAGFYR 2** Dydd Sadwrn Euros Childs yn Arad Goch. Bydd tocynnau ar werth yn Siop Inc, Andys Records a Siop y Pethe yn fuan, ond ar gael i'w harchebu ar-lein yn unig am y tro.

**RHAGFYR 5** Nos Fawrth Sesiwn gyntaf Dewch i Ganu Carolau, dan arweiniad Gwennan Williams. Cyfle i ymuno â'ch ffrindiau a'ch cymdogion yn hwyl yr ŵyl drwy ddysgu ac ymarfer ambell garol i'w canu fel côr mewn noson garolau Nadolig yn Neuadd Rhydypennau ar nos Sul 17 Rhagfyr. Does dim angen unrhyw brofiad o ganu arnoch chi! Croeso i bawb. Os am fentro, cysylltwch â neuaddrhydypennau@live.co.uk yn Neuadd Rhydypennau o 7.00-8.00

**RHAGFYR 9** Dydd Sadwrn Ffair Nadolig Neuadd Rhydypennau. Stondinau amrywiol ac ymweliad gan Siôn Corn yn Neuadd Rhydypennau 10.00-4.00.

**RHAGFYR 9** Bore Sadwrn Ffair Nadolig Plaid Cymru Gogledd Ceredigion ym Morlan o 11.00 ymlaen

**RHAGFYR 10** Nos Sul Cyngerdd Côr ABC 'Naw Llith a Charol' yn Eglwys Padarn Sant, Llanbadarn Fawr am 7.30 Mynediad am ddim. Rhoddion os dymunir i HAHAV Hosbis yn y Cartref Aberystwyth. Pwnsh poeth a mins peis i ddilyn.

**RHAGFYR 13** Nos Fercher Ail sesiwn Dewch i Ganu Carolau, dan arweiniad Gwennan Williams. Croeso i bawb; yn Neuadd Rhydypennau 7.00-8.00 neuaddrhydypennau@live.co.uk

**RHAGFYR 15** Nos Wener Dathlu'r Nadolig dan ofal Alan Wynne Jones Cymdeithas Lenyddol y Garn yn y festri am 7.30

**RHAGFYR 17** Prynhawn Sul Marchnad Nadolig PATRASA Penrhyn-coch yn Neuadd y Penrhyn o 3.00-6.00

**RHAGFYR 17** Nos Sul Noson Ganu Carolau'r Pentref yng nghwmni Band Pres Ysgol Rhydypennau, rhai o gantorion Côr ABC a grŵp o gantorion o'r pentref, dan arweiniad Gwennan Williams. Mynediad am ddim yn Neuadd Rhydypennau am 6.30.

**RHAGFYR 18** Nos Lun Gyrfa chwist dofednod ffres yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch am 8.00

**RHAGFYR 21** Nos Iau Plygain draddodiadol dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn yn Eglwys St Ioan am 7.00.


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Hydref 2017

**£25** (Rhif 231) Elen Eilliams, Penrhiwlas, Goginan
**£15** (Rhif 57) Eirwen Sedgewick, Rheidol House, Capel Bangor
**£10** (Rhif 192) Elizabeth Lewis, Dolgamlyn, Capel Bangor

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Hydref 18.

Cofiwch ei bod yn amser ail ymaelodi cyn Ionawr.

# Gall hyd yn oed y syniad symlaf gael yr effaith fwyaf...

Ydych chi'n awyddus i wneud gwahaniaeth go iawn i'ch cymuned wledig – gan ei gwneud yn lle gwell fyth i fyw a gweithio ynddi? A oes gennych syniadau a allai helpu eich amgylchedd leol gan gynnwys ynni adnewyddadwy, datblygu syniadau o ran technoleg ddigidol neu helpu i gefnogi adnoddau a gwasanaethau eich cymuned leol?

Hoffai Grŵp Gweithredu Lleol Cynnal y Cardi, a weinyddir gan Gyngor Sir Ceredigion, glywed gan bobl leol sydd â syniadau cymunedol arloesol. Cyllidwyd y prosiect hwn drwy raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 - 2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

Gall Cynnal y Cardi eich cynorthwyo gyda datblygu prosiectau, gwerthuso, astudiaethau dichonolrwydd, hwyluso, hyfforddiant, mentora, ymgynghori a phrosiectau peilot.

Croesawir pob syniad – bach a mawr – ac ar sail dreigl, a dydd Llun 11 Rhagfyr 2017 yw'r dyddiad cau nesaf er mwyn mynegi diddordeb.

Am wybodaeth bellach ynghylch bod yn gymwys am gefnogaeth, sut i mynegi diddordeb a gweithgarwch LEADER Cynnal y Cardi yng Ngheredigion, ewch i wefan Cynnal y Cardi, www.cynnalycardi.org.uk neu ffoniwch y tîm ar 01545 572063 neu anfonwch ebost at cynnalycardi@ceredigion.gov.uk

## 30 MLYNEDD YN OL



Parti cerdd dant Ysgol Gynradd Rhydypennau yn mwynhau eu hunain ar lwyfan (Gŵyl Cerdd Dant Aberhonddu) Llun: Arvid Parry- Jones (o Dincer Tachwedd 1987).

Daeth y parti yn ail yn y gystadleuaeth dan 12 am y cyflwyniad o gerdd Carol Fai, Byron Howells - gynt o Goginan -( brawd Mrs Gwyneira Marshall, Penrhyn-coch) ar y gainc Perthog (Alan Wynne Jones) Rhaid llongyfarch yr hyfforddwraig Carys Jones a'r parti mewn cystadleuaeth arbennig o dda.

Cysylltiadau eraill â'r ardal hon oedd i gerdd Vernon Jones 'Molawd Brycheiniog' enillodd iddo wobr pan oedd yr Ŵyl yn Aberhonddu yn y 1970au gael ei gosod fel darn cystadleuaeth y corau cerdd dant.

Hefyd enillodd Carys Roberts, Crud yr awel, y wobr gyntaf ar yr unawd telyn dan un ar bymtheg oed a chafodd Angharad Rees, Tregerddan, yr ail wobr ar yr alaw werin.

## Calendr 2018

Mae calendr elusennol dwyieithog 2018 o luniau a dynnwyd gan Dr J.P. Ibbotson, Llandre, ar werth yn lleol. Nid dyma y flwyddyn gyntaf i John Ibbotson gyhoeddi calendr o'i luniau a'r tro hwn mae yn dathlu harddwch machlud arfordir Gogledd Ceredigion. Codwyd dros £3,000 yn y gorffennol ar gyfer gwahanol elusennau – eleni argraffwyd mwy gan obeithio codi swm sylweddol o arian at elusen eleni – Parkinson's UK. Mae Dr Ibbotson yn athro yn Ysgol Pen-glais a gellir prynu y Calendr yn rhai o dafarnau y Borth, Garej Tŷ Mawr, Penrhyn-coch, trwy ei dudalen Facebook am £8 neu gellwch gysylltu â Dr John Ibbotson ar y ffôn - 01970 820881

## FFRINDIAU CARTREF TREGERDDAN

Cyfarfod Blynyddol
yn y Cartref
Nos Fercher, 29.11.2017
Am 7 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb

**Camera'r Tincer** Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

Cysyllter â'r trysorydd
os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Oedfaon Capel Pen-llwyn**

*Tachwedd*

19 2.00 Llwyn-y-groes Y Parchg Roger Ellis Humphreys
5.00 Dyffryn

26 10.00 Y Parchg Ddr John Tudno Williams

*Rhagfyr*

3 2.00 Dr Rhidian Griffiths

10 10.00 Bugail

17 11.15 Bugail Gwasanaeth Nadolig y plant

24 10.00 Dr Rhidian Griffiths

25 9.00 Oedfa Deulu Nadolig yr ofalaeth yn y Garn

31 10.00 Oedfa'r ofalaeth yn y Garn

**Eglwys Dewi Sant**

*Rhagfyr 1 Nos Wener*

Noson Goffi, Raffl Fawr ac Adloniant gan Merched Bro'r Mwyn

Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor am 7

*Rhagfyr 17 Nos Sul*

Gwasanaeth Carolau

Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor am 6

Rhagfyr 25, Dydd Nadolig

Gwasanaeth Cymun Bendigaid am 9.30

Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor

**Gwellhad buan**

Deallwn fod Mrs Eluned Scott, Brynawel, a Mrs Kath Davies, Sŵn y nant, Dolpandy, wedi cael triniaeth feddygol yn Ysbyty Treforus yn ddiweddar. Dymunwn i'r ddwy, ddymuniadau gorau am wellhad buan iawn.

**Swydd newydd**

Pob lwc i Rowan Edwards, Stâd Penllwyn, sydd wedi dechrau yn ei swydd newydd ar fferm Trawscoed

**Cyfarfod Diolchgarwch**

Mae gennym gymaint i ddiolch amdano.a chynhaliwyd y cyfarfod blynyddol, yn y capel ar Hydref 19ed. Y pregethwr gwâdd oedd y Parchg Wyn Morris, ein cyn weinidog, pryd y cafwyd eitem gan blant yr ysgol Sul. Arweiniwyd y gwasanaeth gan Y Parchg Ddr Watcyn James, a Delyth Davies wrth yr organ.Wedi yr oedfa 'roedd yna gwpanaid a sgwrs yn y festri.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Raymond a Nia Davies, Ceunant, Stad Pen-llwyn, ar eu ŵyr bach newydd, Osian Jac, mab i Steffan a Laura anwyd fore Gwener 3 Tachwedd. Dymuniadau gorau iddynt i gyd. Mae'n siwr bydd mam-gu wrth ei bodd yn mynd ag Osian bach am dro, drwy'r pentre.

**Teyrnged Gwyneth**

Nos Sul wedi angladd Gwyneth, rhoddwyd iddi, gan un o'r blaenoriaid y deyrnged hardd hon, ac yn ôl ein harfer safasom ar ein traed er cof amdani.....

Gyda thristwch y cofnodwn farwolaeth Mrs. Gwyneth Smart ddechrau'r mis hwn. Bu Gwyneth yn rhan o'n bywydau yma ym Mhen-llwyn ar hyd y blynyddoedd gan iddi ddod i fyw i Sunnycroft yn ifanc iawn pan symudodd Doris a Richard Ingram, ei rhieni, o Langurig i fyw ym Mhen-llwyn. Yr ail oedd Gwyneth o bump o blant; cofiwn am ei chwmni yn yr ysgol leol ac hefyd yn yr ysgol Sul. Ar ôl cael ei derbyn yn gyflawn aelod yn y capel, bu'n ffyddlon tu hwnt i'r oedfaon, fel ei mam o'i blaen, ac roeddynt eu dwy yn gaffaeliad mawr i ganiadaeth y cysegr yn ein plith. Edrychai ymlaen yn flynyddol at dderbyn y copi diweddaraf o ddetholiad yr Ysgol Sul, a chai gryn bleser yn pori drwyddo weddill y flwyddyn.

Ar ôl priodi aeth y teulu bach i fyw i Stad Pen-llwyn lle ganwyd iddynt ferch, sef Michelle. Mawr fu gofal ei mam ohoni, ac wrth i iechyd Gwyneth ddirywio tua 7 mlynedd yn ôl, pan y gorfu iddi gael triniaeth dialysis dair gwaith yr wythnos, cafodd hithau ofal amhrisiadwy gan ei merch a'r teulu.

Bu Gwyneth a'i brawd ieuengaf, Gerald, yn cydfyw yn Sunnycroft am nifer o flynyddoedd, y naill yn gysur ac yn help i'r llall. Tua 3 mlynedd yn ôl gorfu iddi ymgartrefu ym Mhlas Cwmcynfelin, lle y gwnaeth lawer iawn o ffrindiau a hithau yn fawr ei pharch gan bob un. Roedd ei brawd yn ymwelydd cyson â'r cartref, ac nid âi noson heibio heb iddo ddangos ei wyneb a byddai'r deiliaid yn edrych ymlaen at bysgod a sglodion ganddo weithiau!

Câi pob ymwelydd groeso mawr gan Gwyneth ac roedd mor ddiolchgar am bob ymweliad, nid oedd dim yn rhoi mwy o bleser iddi na dweud am ymweliadau cyson ei Gweinidog â hi, mawr oedd ei chonsyrn am hynt a helynt y capel a'r pentref yn ogystal.

Diolchwn am gael ei hadnabod. Diolchwn am y gofal arbennig a roddwyd iddi gan ei theulu ac yn y cartref yng Nghwmcynfelin a chyflwynwn y teulu yn dyner iawn i ofal eu Tad nefol gan gofio geiriau'r Salmydd "Duw sydd noddfa a nerth i mi, cymorth hawdd ei gael mewn cyfyngder".

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Michelle a'r bechgyn, Gerald, Margaret a'r teulu a Michael a'r teulu yn ei hiraeth.

**Taith Gerdded**

Ar y 4ydd o Dachwedd, ar fore digon oer, bu plant Ysgol Sul Pen-llwyn, ac oedolion, ar daith gerdded, o amgylch Llyn Nantyrarian.

Pob pum mlynedd mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn dewis lle i helpu trigolion; Ynysoedd y Pilipinas, fydd yn elwa y flwyddyn hon, ar ôl y corwyntoedd ofnadwy a gawsant rhyw flwyddyn yn ôl, pan ddifrodwyd bron popeth oedd ganddynt. Enw yr ymgyrch eleni yw Corwynt Cariad. Mae pob capel a'u targedau i godi swm o arian yn ôl nifer eu haelodau, a hynny os yn bosibl cyn diwedd y flwyddyn.

Cafwyd lawer o hwyl ar y daith, y rhai bach wrth eu boddau yng nghwmni y gweinidog. Bu rhan fwyaf o'r criw yn ddewr iawn a mynd o amgylch y llyn





Taith gerdded Capel Pen-llwyn yn Nantyrarian

ddwywaith, a mwynhau yn y caffi, wedi cyrraedd 'nôl. Wrth gwrs bu rhaid i rai ohonom aros yn y caffi i groesawu y cerddwyr yn ôl wedi'r daith!! Wel dyna oedd eu esgus beth bynnag.!!

Diolch o galon i bawb sydd wedi noddi, ac os carai rywun arall gyfrannu,

byddem yn dra diolchgar pe byddech yn ei roi, os gwelwch yn dda, i Miss Delyth Davies, Maencrannog. Llawer o ddiolch.

**Llwyddiant**

Balch iawn ydym i glywed am lwyddiant Mr a Mrs Geraint Williams, Cefnllidiart, mewn cystadleuaeth wedi ei threfnu yn ddiweddar, gan Mr Simon Pitt, Cymdeithas Tir Glas. Daethant yn gyntaf mewn hylendid llaeth buchesi bychain yng Nghymru. Hefyd 'roedd Geraint yn ail yn nosbarth y ffermydd mwyaf a'r lleiaf, a hynny eto trwy Gymru. Tipyn o gamp yn wir. Llongyfarchiadau mawr i Mr a Mrs Geraint a Marie a'r teulu, a dymuniadau gorau i'r gamp i barhau. Da iawn chi.



**Cyfarfod misol Merched y Wawr Cangen Melindwr**

Ar noson dywyll ar Dachwedd 7fed daeth aelodau tair cangen atom sef, Aberystwyth, Llanfihangel Genau'r -glyn a Phontarfynach i gymryd rhan mewn noson gwis. Braf oedd gweld cymaint wedi troi allan ac ar ôl i bawb leoli croesawyd ni gan ein llywydd. Lynne Davies. Mr Hywel Wyn Jones oedd meistr y cwis gyda chymorth caredig Mr Dafydd Evans - gŵr ein trysoryddes Llinos Evans.

Cafodd pawb gyfle i ateb cwestiynau yn eu tîmau. Pwy oedd wedi clywed am Bigoli neu Fregola? Math o basta maen debyg! Pen Dafad ddaeth i'r brig gyda tîmau Pen Draw, Pen Dam a Phen Dinas yn canlyn. Cafwyd lluniaeth i ddilyn a chyfle i fwynhau cymdeithasu.Tynwyd y raffl ac yna derbyniwyd diolchiadau am noswaith addysgiadol a hollol bleserus.Yn y cystadlu mae'r hwyl!

Mae'n anodd credu bod ein cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yng Ngwesty'r Richmond gyda cinio Nadolig. Noder y dyddiad - Nos Fercher Rhagfyr 6ed.



## Colofn BEN LAKE AS

Mae'n anodd credu, ond ar 9 Rhagfyr byddaf yn nodi 6 mis ers cael fy ethol yn Aelod Seneddol dros Geredigion. Dyma gyfle felly i edrych yn ôl ac adlewyrchu ar fy misoedd cyntaf yn y swydd.

Gorfoledd, pryder, a rhwystredigaeth; dyma rai o'r emosiynau dwi wedi'u profi ers cael fy ethol. Dwi hefyd wedi dod i ddeall bod dwy ochr i fy mywyd gwleidyddol erbyn hyn: gwleidyddiaeth llawn protocol, traddodiad a seremoni yn San Steffan a gwleidyddiaeth sy'n canolbwyntio ar wrando, ymgysylltu ac ymgyrchu yma yng Ngheredigion. Does dim gwobr i'r sawl sy'n dyfalu pa fath o wleidyddiaeth dwi'n uniaethu â hi fwyaf!

Nid yw ymgyfarwyddo â'r drefn wleidyddol yn San Steffan wedi bod yn rhwydd. Mae traddodiadau, defodau ac arferion y sefydliad yn gwbl wrthun i mi. Ond mae treulio amser yn teithio i bob cwr o Geredigion yn cwrdd ag etholwyr wedi bod yn bleser llwyr.

Rwy'n grediniol mai un o brif nodweddion gwleidydd da yw'r gallu i wrando. Petai mwy o wleidyddion ar draws y sbectrwm gwleidyddol yn barod i wrando ar anghenion a phryderon pob etholwr yn gyfartal, gallai hynny fod yn drawsnewidiol i wleidyddiaeth yng Nghymru a'r DU.

Ers cael fy ethol, rwy' wedi treulio cryn dipyn o amser yn gwrando ar eraill; gwrando ar etholwyr sydd angen cyngor a chefnogaeth ar faterion o bwys; gwrando ar anghenion a dyheadau cymunedau, busnesau bach, sefydliadau ac elusennau; a gwrando ar gyngor gan gydweithwyr yn San Steffan.

Ond rwyf am sicrhau fy mod i'n gwrando ar lais pob un o drigolion Ceredigion. Mae eich barn yn bwysig i mi, a dyna pam rwy' wedi paratoi holiadur sydd wedi cael ei ddosbarthu i gartrefi ar draws y sir. Cwblhewch a dychwelwch yr holiadur os gwelwch yn dda gan ddatgan eich barn ar beth ddylai fy mlaenoriaethau fod dros y 6 mis nesaf, yn San Steffan a Cheredigion.

Bydd colofn Elin Jones yn ymddangos bob yn ail fis gyda un Ben Lake o hyn ymlaen.

## CLARACH

Dyma Griff Lewis, Clarach, yn gwisgo crys gwyrdd arweinydd y gyfres wedi ei fuddugoliaeth yn rownd gyntaf cyfres traws seiclo y National Trophy yn Derby fis Hydref. Nid ar chwarae bach y mae cyrraedd y brig yn erbyn 65 o seiclwyr eraill o Gymru a Lloegr mewn camp mor anodd â thraws seiclo, ond fel y gwyddom eisoes mae Griff yn prysur gwneud enw iddo'i hun ar ddwy olwyn. Mae'r gyfres yn parhau hyd fis Ionawr, ac edrychwn ymlaen at ddilyn hynt Griff, sydd hefyd yn blogio am ei brofiadau wrth rasio.



GWASANAETH
TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

# PENRHYN-COCH

**Oedfaon Horeb**

*Tachwedd*

**19** 10.30 Clwb Sul Horeb
2.30 Y Parchg Wyn Rh Morris

**26** 10.30 Clwb Sul ar y cyd gyda Sant Ioan – yn Horeb
10.30 Oedfa – Y Parchg Peter Thomas

*Rhagfyr*

**3** 10.00 Ym Methel Aberystwyth Oedfa'r adfent
10.30 Ysgol Sul - Horeb

**10** 10.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa gymun
Ysgol Sul - festri

**17** 2.00 Gwasanaeth Nadolig, yn cynnwys y plant

**24** 10.30 Oedfa Nadolig Y Parchg Peter Thomas

**25** 8.00 Cymun fore'r Nadolig Y Parchg Peter Thomas

**31** 10.30 Y Parchg Peter Thomas

**Cinio Cymunedol Penrhyn-coch**

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 22 Tachwedd a 13 Rhagfyr. Cysylltwch â Job McGauley 820 963 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

**Urdd y Gwragedd, Sant Ioan**

Diolch i Medwyn Parry a'r gwirfoddolwyr eraill, a ddaeth i godi ymwybyddiaeth gwaith pwysig Beiciau Gwaed Cymru i Urdd y Gwragedd St Ioan ar nos Lun 6ed Tachwedd. Yn y lluniau gwelir rhai o aelodau Urdd y Gwragedd St Ioan yn edmygu ' Elsa', sef un o feiciau modur Gwaed Cymru a gwelir Mrs Glenys Jenkins ar gefn 'Elsa'.

**Cymdeithas y Penrhyn**

Braf oedd croesawu Richard E. Huws atom i Gymdeithas y Penrhyn ar y 18fed o Hydref i drafod ei lyfr newydd *Enwau Tai a Ffermydd Bont-goch, Elerch, Ceredigion*.

Fel y dywed y broliant, yr hyn a geir yn y gyfrol yw "astudiaeth o enwau tai diflanedig a holl dai a ffermydd presennol cymuned Bont-goch". Yn ddifyr iawn, cawsom ein tywys, trwy gyfrwng sleidiau amrywiol, ar daith gerdded o gwmpas y plwy, gan gychwyn yng nghartref yr awdur, Pantgwyn. Diddorol oedd oedi o flaen tai, tyddynnod, adfeilion ac olion, a chraffu ar ddyddiadau ac arwyddocâd eu henwau. Cyfeiriodd at weithfeydd mwyn a phlwm, capel ac eglwys a bywyd y tyddynwyr a'r bonedd yn ardal Bont-goch.

Edrychwn ymlaen at daith gerdded o gwmpas Bont-goch ym mis Tachwedd, dan arweiniad Richard Huws.

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Dilys Binks a'r teulu ar golli ei brawd John Morgan; hefyd â theulu'r diweddar Mrs Barnard, Glan Ceulan.

**Gwellhad buan**

Dymunwn wellhad buan i Ronnie Evans a fu yn yr ysbyty yn cael triniaeth yn ddiweddar.

**Croeso**

Croeso cynnes i Moira Wrigley a'r teulu sydd wedi symud i Ger y Llan o Fanceinion. Un o blant y pentref sydd wedi dod yn ôl i'w hen cynefin ac wedi cadw yr enw 'Llys Gwyn' sef enw ei chartref teuluol.

**D. Litt i Daniel**

Mewn cynulliad arbennig o Brifysgol Cymru a gynhaliwyd yn y Deml Heddwch, Caerdydd, ddydd Mercher, 8 Tachwedd, anrhydeddwyd Daniel Huws, Tyddyn Seilo - cyn Geidwad Llawysgrifau a Chofysgrifau Llyfrgell Genedlaethol Cymru - gyda gradd D.Litt., er anrhydedd.

Mae'r radd yn cydnabod ei ragoriaeth fel prif awdurdod y genedl ar lawysgrifau Cymraeg a Chymreig, ac fel awdur y tair cyfrol arfaethedig, *A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes*, y bwriedir eu cyhoeddi gan Wasg Prifysgol Cymru, Canolfan Uchafradd Cymreig a Cheltaidd y Brifysgol, a Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn 2019-20.

Ganed Mr Huws yn Llundain yn 1932, ac fe'i haddysgwyd yn Ysgol y Sir Llangefni ac Ysgol Bryanston. Wedi graddio mewn Archaeoleg ac Anthropoleg ym Mhrifysgol Caergrawnt - lle bu'n gyfaill a chyfoeswr i'r bardd Ted Hughes - aeth Daniel Huws ymlaen i ennill cymhwyster archifol ym Mhrifysgol Llundain, cyn cael ei benodi i staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn 1961. Fe'i dyrchafwyd yn Geidwad Llawysgrifau a Chofysgrifau y Llyfrgell yn 1981, ac ymddeolodd yn 1992.

Dyfarnodd Prifysgol Cymru radd M.A. er anrhydedd i Mr Huws yng Ngorffennaf 2002, a hynny'n bennaf ar sail ei gyfrol bwysig *Medieval Welsh Manuscripts* (Caerdydd & Aberystwyth, 2000), cyfrol a gydnabyddir yn gyfeirlyfr hanfodol yn y maes.

Ers ei ymddeoliad, cynhyrchodd nifer helaeth o gyhoeddiadau ar lawysgrifau Cymraeg a Chymreig. Yn goron ar lafur oes, bu'n gweithio'n gyson ers 1992 ar *A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes up to 1800*, catalog cynhwysfawr





a manwl o bob llawysgrif Gymraeg, ac o darddiad Cymreig, o'r cyfnod cyn-1800, ynghyd ag astudiaeth o lawysgrifen y Cymry tros gyfnod o saith canrif. Pan gyhoeddir y tair cyfrol yn 2019-20, bydd y gwaith hwn yn chwyldroi ysgolheictod llenyddol a hanesyddol Cymru, ac yn gosod seiliau newydd i astudiaethau o lawysgrifau a thestunau Cymreig ar gyfer cenedlaethau i ddod. Trwy anrhydeddu'r awdur â doethuriaeth, mae Prifysgol Cymru'n cydnabod aruthredd ysgolheictod Daniel Huws, ac yn edrych ymlaen at weld ffrwyth ei lafur yn y man.

Dywedodd Linda Tomos, Prif-weithredwr a Llyfrgellydd y Llyfrgell Genedlaethol: 'Ychydig iawn o gyn-aelodau staff sy'n treulio chwarter canrif o'u hymddeoliad yn ymweld yn gyson â'u hen fan gwaith, gan wneud darganfyddiadau newydd yn rheolaidd. Rydym wrth ein boddau fod y byd academaidd yng Nghymru yn anrhydeddu un o'n pobl ni, a hynny gydag un o'u hanrhydeddau mwyaf. Ni allwn feddwl am deilyngach gwrthrych i'w anrhydeddu yn y fath fodd.'

Yn brif arbenigwr Cymru ar balaeograffeg, mae Daniel Huws hefyd yn hyddysg ym maes cerddoriaeth werin Cymru, ac mae hefyd yn fardd Saesneg nodedig.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Gwenan Hedd, Garej Tŷ Mawr, ddaeth yn gyntaf mewn cystadleuaeth i rai 16 a dan hynny ym Mhencampwriaethiau Cwiltio yr Alban 2017 yng Nghaeredin diwedd mis Medi; daeth Seren Wyn, Sian Fflur a Gwenan Hedd yn drydydd. Y wobr oedd basged yn llawn o nwyddau gwnïo.



**PÊL-DROED PENRHYN-COCH**

**Menywod Penrhyn-coch**

15/10 Cynghrair – Prifysgol Aberystwyth 3 Penrhyn-coch 3
22/10 Cwpan Canolbarth Cymru – Y Trallwng 0 Penrhyn-coch 9
5/11 Cynghrair – Penrhyn-coch 1 Prifysgol Aberystwyth 5

**Tim 1af Penrhyn-coch**

Cynghrair - Huws Gray
14/10 Penrhyn-coch 2 Hotspur Caergybi 1
28/10 Penrhyn-coch 2 Tref Rhuthun 2
4/11 Cwpan Cymru - Penrhyn-coch 4 Caerffili 1







Cylch Meithrin Trefeurig yn dathlu calan gaeaf.

*Trefnwyr Angladdau*

*C T Evans*

Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.

**01970 820013**

*gwyn@ct-evans.co.uk*

**Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS**

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture


**PLYGAIN MORLAN**

**7.30, nos Fercher, 20 Rhagfyr**

Dewch i ddathlu'r Nadolig yn ein Plygain draddodiadol. Croeso cynnes i bawb. Gwneir casgliad yn ystod y gwasanaeth i elusen.

**morlan.cymru**

**Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH**
**01970-617996; post@morlan.cymru**



# Y BORTH

**Arddangosfa**
Mae arddangosfa o waith Stuart Evans i'w gweld yn Oriel Cletwr, Tre'r-ddôl tan Dachwedd 30.

**Pen blwydd arbennig**
Dymuniadau gorau i Susan Williams, 38 Heol Aberwennol, ar ddathlu pen blwydd arbennig ddiwedd Hydref.

**Libanus 1877**
Nos Iau, Tachwedd 9fed, ar drothwy cofio'r Cadoediad, roedd pob sedd yn sinema bwtîc foethus Libanus 1877 wedi ei llenwi ar gyfer dangosiad o Cofia'n Gwlad, sef ffilm o'r ddrama a berfformiwyd mewn gwahanol gapeli yn ystod arddangosfa Cofio a Myfyrio mis Tachwedd 2014. Drwy'r ffilm cawsom ein hatgoffa o'r tryblith o emosiynau creulon hydreiddiodd bob cwr o'r gymdeithas yn ystod y Rhyfel Mawr a'r annhrefn personol a'i dilynodd. Cawsom hefyd glywed a gweld un a fu yno, sef Caledfryn Evans, Tal-y-bont, yn rhannu'r profiad erchyll. Rhwng ansawdd rhagorol y llun ar y sgrîn fawr, y sain glân oedd yn hydreiddio'r neuadd, a'r seddi hynod gyffyrddus, bu'n brofiad amheuthun, ac yn enwedig felly o gofio'r gyfeillach dros de a choffi a chacennau ar y dechrau!





Lluniau: Iestyn Hughes

# Cyw yn dod â hwyl a hud y Nadolig i Aberystwyth!

Mae Cyw a'i ffrindiau yn dod i'r ardal cyn hir fel rhan o daith i ddymuno Nadolig Llawen i blant ar hyd a lled Cymru.

Bydd rhai o gyflwynwyr a chymeriadau hoffus S4C - Huw, Elin, Ben Dant a'i ffrind Cadi, Seren o blaned Asra ac, wrth gwrs, Cyw ei hun - yn dod i Aberystwyth ar 5 o Ragfyr ac maen nhw'n eich gwahodd chi i ymuno â nhw yn yr hwyl!

Bydd tair sioe yn cael eu cynnal yn Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig, Aberystwyth ar 5 o Ragfyr. Mae'r sioeau yn dechrau am 11.30, 1.45 neu 5.45.

I brynu eich tocyn, dilynwch y ddolen ar wefan s4c.cymru/cyw

Mae'n bosibl archebu tocynnau ar gyfer grwpiau os ydych chi'n dymuno trefnu trip ar gyfer eich ysgol, mudiad meithrin neu grŵp chwarae. Mae croeso mawr i bawb yn Sioe Cyw!

Bydd ffi bwcio o £1.00 ar bob archeb sy'n cael ei wneud dros y ffôn neu ar-lein. Cysylltwch â Galeri ar 01286 685 222 os gewch unrhyw anawsterau.

Mae Sioe Nadolig Cyw yn boblogaidd iawn pob blwyddyn a'r tocynnau yn gwerthu'n gyflym, felly peidiwch ag oedi!




Cyfeillion
**y tincer**

***FFURFLEN GAIS SWYDDOGOL I YMUNO Â'R CLWB***

**Enw Llawn** ______________________

**Cyfeiriad** ______________________
______________________
______________________

**Côd Post** ____________

**Rhif Ffôn** ____________

**Dychweler at y Trefnydd**
Bethan Bebb,
Pen Pistyll,
Cwmbrwyno,
Goginan,
Aberystwyth,
Ceredigion,
SY23 3PG

**Taliadau**
Ticiwch y blwch priodol os gwelwch yn dda

☐ Arian neu Siec

☐ Archeb Banc


**Datganiad** Dymunaf ymaelodi â Chlwb Cyfeillion Y Tincer a deallaf y bydd gofyn i mi dalu £10 am flwyddyn o Aelodaeth sydd yn cynnwys dau rif. Tynnir y rhifau yn fisol yn ystod 10 sesiwn plygu'r Tincer.
Cyhoeddir y rhifau buddugol yn Y Tincer.

Llofnod ______________________

Dyddiad ______________________

# Colofn Enwau Lleoedd

Tua diwedd y ddeunawfed ganrif aeth Stad Gogerddan ati i fapio'i thiroedd yn fanwl, ac yn ffodus, mae'r mapiau hynny wedi eu diogelu yng nghasgliad y Llyfrgell Genedlaethol. Un ohonynt yw'r map a luniwyd yn 1788 i ddarlunio hyd a lled lluest Maesnant, ychydig uwchlaw cangen ddwyreiniol cronfa Nant-y-moch heddiw. Dynodir ffin ogledd-ddwyreiniol y lluest gan Nant y Llyn, ffrwd gref sy'n llifo o Lyn Llygad Rheidol i afon Rheidol, ond yr hyn sydd o ddiddordeb i mi yw llednant iddi, sef *Nant Torri Wddwg*.




Mapiau Stad Gogerddan cyfrol 37, tudalen 46, Maesnant.
Trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Map stad Gogerddan yw'r unig ffynhonnell ysgrifenedig sy'n ei chofnodi, ond gwn fod yr enw *Nant Torri Gwddwg* yn parhau ar lafar yn yr 1960au gan Tomos Morgan oedd yn hanu o Hengwm Annedd yn uwch i fyny'r cwm, a John a Jim James, y ddau frawd adnabyddus oedd yn byw yn Nant-y-moch cyn boddi eu cartref.

Er mai ffrwd fechan ydyw, mae'n cwympo'n sydyn o'i tharddle i'w haber, ac mae'n ymddangos mai dyna yw arwyddocâd yr enw. Mae'r ymadrodd yn awgrymu bod y dŵr yn disgyn bendramwnwgl gan dorri ei wddwg yn y broses.

Honnai John a Jim, Nant-y-moch, bod *Nant Torri Gwddwg* arall, ar dir Aberpeithnant, ychydig yn is i lawr y cwm tuag at Bonterwyd, a chan fod eu tad wedi ei fagu yn y lluest honno, dylai eu tystiolaeth fod yn ddibynadwy. Yn anffodus, er gwaethaf pob ymdrech, rwyf wedi methu canfod ei lleoliad.

Nid dyma'r unig dystiolaeth o'r ymadrodd mewn enwau yn Ngheredigion. Gwn am enghraifft arall o'r enw am nant sy'n cwympo dros ei phen ar dir fferm Ty'nrhelyg, yn union i'r de-orllewin o bentref Lledrod.

Ceir enghraifft arall dros y ffin yn sir Drefaldwyn, ym mlaen afon Hafren. Yno digwydd yr enw Cymraeg *Hafren Torri Gwddwg,* a fersiwn Saesneg gyfatebol, *Severn Break Its Neck*, am raeadr tra nerthol.

Â symud i sir Faesyfed, ychydig i'r gogledd o bentref Llanfihangel Nant Melan ceir pistyll a adnabyddir wrth yr enw Saesneg *Water Break Its Neck*, lle mae'r dŵr yn disgyn tua phedwar ugain o droedfeddi i lawr wyneb serth clogwyn.

Mae'n debygol mai cyfeiriad at yr un pistyll sydd yn yr ymateb isod i 'Parochial Queries' yr hynafiaethydd Edward Lhuyd tua diwedd yr ail ganrif ar bymtheg:

> "y mae'r avon a elwir avon cwm y reiswm yn torri i gwddwf ag yn syrthio o ben craig o bob tu cant a hanner o latheini o uchder".

Tybed felly a oedd enw Cymraeg ar y pistyll hefyd ar un adeg, yn cynnwys yr ymadrodd *torri gwddf*?

Daw'r enghraifft olaf y gwn i amdani o sir Ddinbych. Dengys map chwe modfedd yr Arolwg Ordnans mai enw nant fechan sy'n llifo rhyw filltir a hanner i'r dwyrain o Landegla yw *Nant Torri Gwddf*. Er nad wy'n gyfarwydd â'r ardal, hyd y gellir barnu o archwilio mapiau ac awyrluniau, mae'r nant hon eto yn disgyn dros ei phen ac wedi creu hafn ddofn yn y tir.

Felly dyma ddull llawn dychymyg o ddisgrifio rhaeadrau, pistyllau, neu nentydd sy'n disgyn bendramwnwgl. Tybed a wyddoch chi am enghreifftiau pellach?

**Angharad Fychan**

**Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru a'r Cynllun GWARCHOD**
**www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**

# Cyngor Cymuned Melindwr

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau, yr 21ain o Fedi o dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Andrea Jones.
Cafwyd ymddiheuriad oddi wrth un Cynghorydd.
Ar hyn o bryd dim ond 9 Cynghorydd sydd ar Gyngor Cymuned Melindwr; os oes gan rywun diddordeb, dylai gysylltu â'r Clerc.
Adroddodd y Clerc fod cyfrifon 2016/17 wedi eu derbyn gan yr Archwilwyr, Grant Thornton, a diolchwyd i'r Cynghorydd Jean Watson am ei gwaith wrth baratoi'r cyfrifon.
Roedd dau fater cynllunio wedi dod i sylw'r Cyngor:
Penlanolau, Capel Bangor – codi tŷ
Pencnwch, Cwmrheidol – estyniad
Nid oedd dim gwrthwynebiad i'r cynlluniau.
Mae'r Cyngor yn awyddus i gael gwell cysylltiad band eang yn yr ardal ac mae wedi cysylltu â BT ynglŷn â'r mater hwn.

Datblygiad sy'n mynd yn ei flaen ym Mhant y Crug, Capel Seion i godi cartrefi newydd.
Mae'r datblygwyr wedi gofyn i Gyngor Cymuned Melindwr awgrymu enw i'r ystâd newydd hon. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau a wnewch gysylltu â Jean Watson, Cynghorydd Pant y Crug, y Clerc neu aelod o'r Cyngor.

Porchell
Eich cigydd lleol
PEN-Y-GARN
FFON 828 447
LLUN: 9-5.30
MAW-SAD 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

# BOW STREET

**Capel y Garn**
**Suliau'r Garn**
**10 a 5**
*Tachwedd*
19 Gweinidog ( nos ym Methlehem, Llandre)
26 Terry Edwards

*Rhagfyr*
3 Noddfa Gweinidog
10 Dr Rhidian Griffiths
17 Gwasanaeth Nadolig y plant – Noddfa 'Gwasanaeth y Gair a'r Geiriau'
24 Bore yn unig – Gweinidog
25 9.00 Oedfa Deulu undebol – Gweinidog
31 Oedfa gymun undebol – Gweinidog

**Suliau Noddfa**
*Tachwedd*
26 Oedfa am 2.00. Gweinidog. Cymundeb.

*Rhagfyr*
3 Oedfa am 10.00. Gweinidog. Y Garn yn uno.
10 Oedfa am 10.00. Gweinidog. Cymundeb.
17 Oedfa am 10.00. Y Garn yn Uno.
24 Gwylnos Noswyl Nadolig am 11.30yh
25 Uno yn y Garn am 9.00
31 Uno yn y Garn am 10.00

**I gyfarch y Parchedig William John Edwards ar gyflawni hanner can mlynedd yn y Weinidogaeth**

Aneirif ei archifau – gweinidog
A'i nwyd mewn adnodau;
Dewr ei nawdd a chadarnhau
Yr iaith a'i rhagoriaethau.

Ymlaen hanner can 'mlynedd – ein herio
Trwy'r Gair a'i huodledd;
esgor ar hyrwyddo'r hedd
a rhannu'r hen Wirionedd.

Jon Meirion, Aures a Gareth Wyn (aelodau Capel y Wig, Llangrannog ac ar ran hen batriarchiaid y Cilie) Diolch i Jon Meirion am ganiatâd i'w cyhoeddi

**Merched y Wawr Rhydypennau**
Ar nos Lun, y 9fed o Hydref, cafwyd noson allan. Aethpwyd i'r Drwm lle cawsom noson hyfryd yn gwylio ffilm o Aberystwyth amser maith yn ôl. Gwelwyd newidiadau mawr gydag ambell i llun yn achosi dryswch!!!
Ar ôl gweld y ffilm trafodwyd busnes y gangen dan lywyddiaeth ein his-lywydd Brenda Jones wnaeth longyfarch ein llywydd Lila Piette ar ddod yn fam-gu a chroesawu Annetta Morgan nôl i'n plith. Yna cafwyd paned a chlonc a chyfle i weld yr arddangosfeydd. Noson ddiddorol.

**Capel y Garn**
**Gwasanaeth Sefydlu'r Parchedig Ddr R Watcyn James**
Nos Wener, Hydref 13eg, cafwyd cyfarfod bywiog yng Nhapel y Garn pan ddaeth aelodau Gofalaeth y Garn, sef eglwysi'r Babell, y Garn, Madog, Nasareth, Pen-llwyn, Rehoboth a Seion, ynghyd i sefydlu'r Parchg Watcyn James yn Weinidog arnynt. Braf oedd cael croesawu aelodau o eglwys Burry Green ar Benrhyn Gŵyr, lle bu Dr James yn cynorthwyo gyda gwaith yr eglwys cyn derbyn yr alwad i'r Garn.

Mrs Marian Beech Hughes, Llywydd Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro, oedd yn llywyddu.

Cyflwynwyd yr emyn cyntaf gan y Parchg Elwyn Pryse, cyn-Weinidog ar yr Ofalaeth; darllenwyd o'r Ysgrythur gan Mrs Ina Williams, Capel Seion ac offrymwyd gweddi gan y Parchg Eifion Roberts, Capel y Morfa. Yna cafwyd cyfnod o addoliad dan arweiniad gan y Parchg Ddr Andras Iago, mab y gweinidog newydd a gweinidog Gofalaeth Bro Dinbych.

Yn dilyn y ddefod sefydlu, offrymwyd gweddi dros y Gweinidog gan y Parchg Iain Hodgins, gweinidog Burry Green. Croesawyd Dr James a Mrs Lowri James ar ran yr Ofalaeth gan yr Arglwydd Elystan Morgan; offrymodd y Parchg Wyn Morris, y cyn-Weinidog, weddi ar ran eglwysi'r Ofalaeth; a chyflwynwyd yr emyn olaf gan Mr Bob Williams, Cadeirydd Pwyllgor yr Ofalaeth.

Gan y Parchg Athro Densil Morgan, Llanbedr Pont Steffan, y cafwyd y siars i'r eglwysi – siars daer ac eneiniedig i ni i gyd gadw'n ffydd a'n gobaith a chydweithio tuag at gynnydd a ffyniant. Ymatebodd y Gweinidog drwy ddiolch i bawb am y croeso a'r dymuniadau da iddo ef a Lowri, a chan edrych ymlaen yn hyderus tuag at hyrwyddo a chyflawni gwaith Teyrnas Crist yn y fro.

Brwd a chynnes fu'r gymdeithas dros baneidiau yn y Festri wedyn.

**Cymdeithas y Chwiorydd**
Yng nghyfarfod mis Tachwedd o Gymdeithas y Chwiorydd, Mr Maldwyn James, Cadeirydd Cymdeithas Deillion Ceredigion oedd y siaradwr. Cawsom gyflwyniad cynhwysfawr ganddo i'r gwahanol fathau o anhwylderau ar y llygaid sy'n peri i bobl fod yn rhannol neu'n hollol ddall a'r amryfal ffyrdd y gall gwirfoddolwyr y Gymdeithas eu cynorthwyo i ymdopi â'u hanghaffael. Diolchwyd yn gynnes iddo am ei holl waith dros gyfnod hir. Tro chwiorydd Llandre a'r Dolau oedd hi i wneud y te. Ein cyfarfod nesaf fydd y Bore Coffi blynyddol ar Dachwedd 25 yn y festri.



**Alun, Gwynant a Dilwyn, meibion y ddiweddar Mrs. Maud Phillips yn cyflwyno siec o £1050.33 i Iwan Davies, trysorydd Cyfeillion Cartref Tregerddan a Mrs. Elaine Evans, rheolwr y cartref. Casglwyd yr arian er cof am Mrs. Phillips.**

**Grŵp "Gwreiddiau"**
Bore Iau, 2 Tachwedd, daeth criw bywiog o wahanol eglwysi Gofalaeth y Garn ynghyd ar gyfer cyfarfod cyntaf grŵp newydd, dan arweiniad y Parchg Watcyn James. Bwriad y grŵp, a fydd yn cwrdd bob bore Iau rhwng 10.15 a 11.30 o'r gloch, yw archwilio ein "gwreiddiau" yn y ffydd. Bydd cyfle am sgwrs a phaned i ddechrau, ac yna mewn awyrgylch anffurfiol bydd cyfle i geisio dealltwriaeth fwy eglur o ffydd a chanfod gobaith yng ngair Duw ar gyfer heddiw. Mae croeso cynnes i bawb droi i mewn atom – rhai sy'n gadarn eu ffydd, yn llawn amheuon neu â diddordeb mewn archwilio beth yw "gwreiddiau" ffydd.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad gydag Auriel Evans a'r teulu ar farwolaeth ei hewythr - John Edwards - ym Mhontarfynach.

**Geiriadur**
Llongyfarchiadau i Joe Mitchell, Bryncastell, ar gwblhau'r geiriadur Cymraeg-Gwyddeleg cyntaf erioed.

**Arlunydd ifanc**
Llongyfarchiadau i Elin Pierce Williams, Brynmeillion, ar ennill tocyn anrheg Toys R Us am dynnu llun. Trefnwyd y gystadleuaeth gan gwmni Howdens.





Plant a rhieni Ysgol Sul Unedig Bow Street yn eu gwasanaeth diolchgarwch yng Nghapel y Garn

**Ysgol Sul**

Aeth criw o blant a'u rhieni o ysgol Sul Bow Street i grochendy Ynys-las (Blue Island Ceramics) ddiwedd Hydref, am sesiwn o greu a phaentio. Cafwyd amser bendigedig yn dewis darnau o grochenwaith o'r cynnyrch helaeth oedd ar gael yno, ac roedd yn anodd dewis y lliwiau o baent, o'r holl rai oedd ar gael! Diolch i Zana, y perchennog, am ei help a'i hamynedd. Aeth dwy awr ar wib, ac ar y diwedd roedd pawb wedi creu darnau hyfryd – tylluan, cadw-mi-gei, draig, ci, plât â phengwin arno, sawl coeden Nadolig, ac ambell beth arall lliwgar. Daeth yr ymweliad i ben yn Oriel Tir a Môr, y Borth, lle cafwyd llond plât o ginio blasus.

Cofiwch fod croeso i blant o bob oed ymuno â'r ysgol Sul – dewch i festri Capel y Garn am 10 ar fore Sul am sesiwn o chwarae, gwneud crefftau, adrodd stori – a diod a bisgedi!.

**Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog i Geredigion yn cael ei enwebu yng Ngwobrau'r Lluoedd Arfog yng Nghymru 2017**

Enwebwyd y Cynghorydd Paul Hinge - Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog ar ran Cyngor Sir Ceredigion - yn rownd derfynol ar gyfer Gwobrau'r Lluoedd Arfog yng Nghymru 2017. Cyflwynir y gwobrau i bobl ar draws Cymru sydd yn cael eu henwebu yn y pedwar categori - Chwaraeon, Ieuenctid a Chadét, Cyfamod a Prif Wobr y Lluoedd Arfog. Mae'r gwobrau'n cydnabod y rhai sydd wedi darparu'r cyfraniad mwyaf eithriadol yn y categorïau hynny.

Mae'r Cynghorydd Hinge yn y rownd derfynol ar gyfer y categori Cyfamod ac mae'r wobr am Gyfamod yn cydnabod y rhai sydd yn chwarae rôl allweddol yn cefnogi a darparu ethos cyfamod y Lluoedd Arfog ac sy'n anelu at sicrhau cyd-ddealltwriaeth rhwng y Lluoedd Arfog a'r gymuned y maent yn byw ac yn gweini ynddynt. Gwasanaethodd y Cynghorydd Paul Hinge, am dros 14 mlynedd yn y Fyddin. Mae'n Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog ar ran Cyngor Sir Ceredigion ar hyn o bryd, safle y mae wedi cynnal ers i CCLlA Ceredigion gael ei sefydlu. Mae hefyd yn Ymddiriedolwr Cymdeithas Catrawd Ffiwsilwyr y Cymry Brenhinol ac wedi derbyn MSM a Rosette ar gyfer ei waith ar gyfer y Gatrawd a Chymrodyr.

Cyhoeddir enillwyr Gwobrau'r Lluoedd Arfog yng Nghymru 2017 mewn seremoni arbennig yn Stadiwm Dinas Caerdydd ar 30 Tachwedd.



**Diolchgarwch a Bedydd yng Nghapel y Garn**

Roedd gwasanaeth bore Sul, 15 Hydref yn oedfa arbennig o ddiolch mewn sawl ffordd. I ddechrau cyflwynodd plant yr ysgol Sul eu diolch arbennig nhw am roddion y cynhaeaf – ar ffurf darlleniadau, gweddi a chân.

Yna cyflwynodd y Gweinidog, y Parch Ddr Watcyn James, gopi o *beibl.net: 365 o storïau o'r Beibl*, yn rhodd i Osian, Tŷ Capel, a dymuno'n dda iddo a'i rieni, James a Kate January McCann, sydd wedi symud i'w cartref newydd yn Nerwen-las.

Yn dilyn hynny, cyflwynodd Steffan ac Elen Roberts, Mynydd Gorddu, eu mab bychan, Celt Meredydd, i'w fedyddio gan y Gweinidog. Roedd yn braf cael cwmni Lois a Math, chwaer a brawd Celt, yn y gwasanaeth, yn ogystal ag aelodau eraill o'r teulu, ac rydym yn falch o dderbyn Celt yn rhan o deulu'r eglwys yn y Garn.

**RHAGHYSBYSIAD**
Recordio Dechrau canu, dechrau canmol
(Arweinydd: Alwyn Evans)
nos Iau 18 Ionawr 2018 yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth am 6.30



Bedydd Celt Meredydd, mab Steffan ac Elen Roberts, yng Nghapel y Garn



Y Parch Ddr Watcyn James yn cyflwyno Beibl i Osian, Tŷ Capel y Garn

**R.J.Edwards**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch

Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mán

01970 820149
07980 687475

# LLANDRE

**Noson Nadoligaidd**
Cynhelir NOSON 5 SEREN eleni i roi cychwyn ar ddathliadau Nadolig y fro yn Bethlehem ar nos Wener Tachwedd 24ain am 6. Bydd diodydd tymhorol, stodinau Bwyd, Poteli a Llyfrau. Trefnir raffl a chyhoeddir enwau enillwyr gwobrau mawr y Clwb 50. Darperir adloniant cerddorol gan Barti Camddwr. Cyflwynir elw'r noson i Gronfa Uned Cemotherapi Ysbyty Bron-glais. Bydd pris mynediad yn £3. a'r plant am ddim. Gofynnir yn garedig i chi am eich cymorth gyda'r trefniadau, cyfraniadau a'ch cefnogaeth ar y noson hon sy'n un o nosweithiau hwyliog y fro yn flynyddol. Trefnir y noson gan Banc Bro Llanfihangel Genau'r-glyn ac edrychwn ymlaen at gael eich cwmni.

# MADOG

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Mr Dei Powell, Nant-y-Bwla, sydd wedi colli cyfnither yn Llandrindod.

**Arddangos yng Nghaerdydd**
Dydd Sadwrn 4 Tachwedd cynhaliwyd bore coffi ym Morlan er budd Aberaid a lansiwyd arddangosfa o brintiau newydd gan Ruth Jên. Bydd yr arddangosfa – Creaduriaid – ymlaen ym Morlan tan 29 Hydref. Yng Nghaerdydd bydd Brethyn Cartref - arddangosfa arall o waith newydd Ruth ymlaen yn yr Eglwys Norwyaidd, Bae Caerdydd o 18-23 Tachwedd rhwng 11 a 4.

**Cwrdd Diolchgarwch**
Cynhaliwyd cyfarfod diolchgarwch Madog eleni pnawn Sul y 15fed o Hydref. Roedd y gwasanaeth o dan ofal ein gweinidog newydd, sef y Parchedig Ddr. Watcyn James. Braf oedd cael croesawu ei briod Lowri hefyd atom. Roedd yn oedfa fendithiol a chynnes iawn. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith. Addurnwyd y capel yn hardd ar gyfer yr achlysur gan Aldwyth Lewis, Margaret Hughes ac Eirian Hughes. Yr organyddes oedd Angharad Rowlands.

**Priodas**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Gwen Sims Williams, Gwarcwm a Robert John Sing o Perth, Awstralia, ar eu priodas yng nghapel Trinity Hall, Caergrawnt, ar yr 16eg o Fedi, â'r dathlu i ddilyn yn Rectory Farm, Caergrawnt.



# GOGINAN

**Dymuniadau gorau**
Mae Elen Williams, Penrhiwlas, yn treulio peth amser yng Nghartref Tregerddan ar ôl derbyn llawdriniaeth ar ei llygad. Danfonwn ein dymuniadau gorau iddi.

## CLWB 50 BANC BRO GENAU'R-GLYN

Dyma enillwyr y tri mis diwethaf.

**MEDI**
1af. Catrin a Iestyn Davies
2il. Janet Evans
3ydd. Llinos Mair Evans

**HYDREF**
1af. Gwenda James
2il. Mair England
3ydd. Lorraine Hill

**TACHWEDD**
1af. Gwynfryn Evans
2il. Dewi Hughes
3ydd. J.G. Jones.

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

Yn eisiau
TENANT
ar gyfer
TŶ CAPEL Y GARN
BOW STREET
Cyfle hefyd am gyflogaeth fel gofalwr Capel y Garn – telerau i'w trafod
Am ragor o fanylion, cysylltwch ag:
Alan Wynne Jones, Trem-y-ddôl,
Bow St, Ceredigion SY24 5BJ
01970 828163;
alan.jones212@btinternet.com
Dyddiad cau: 8 Rhagfyr 2017

D J Evans
Cyfarwyddwyr
Angladdau
Busnes teuluol gyda dros
60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol
gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

SIOP
SGIDIAU
GWDIHW
Shan Jones
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd
graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod,
Dip.Pod.Med.

## ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

**Llyfr y flwyddyn**
Mae llyfr diweddaraf Peter Lord *The Tradition:a new history of Welsh art 1400-1990* (Parthian Books) wedi ei enwebu at gyfer gwobr Llyfr y Flwyddyn yn y categori Llyfrau Ffeithiol Saesneg. Dymuniadau gorau gan obeithio yr aiff yn ei flaen i ennill y brif wobr.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Hugh a Micha, Tŷ Melyn, ar enedigaeth Elis Hugh yn ystod y mis.

**Urdd Y Benywod**
Cafwyd noson gartrefol iawn yng nghwmni Mair Jones o Lanilar. Yr oedd wedi paratoi yn helaeth ar ein cyfer a chafwyd cyfle i flasu bisgedi a danteithion eraill ar gyfer y Nadolig. Yr oedd hefyd wedi dod a esiamplau o waith llaw bendigedig yn wau, crosio a gwaith gwnïo. Cafwyd noson hyfryd iawn. Gwnaethpwyd y te gan Elizabeth Lewis ac Ann Ellis. Enillwyd y gwobrau raffl gan Rhian Barr, Ann Ellis ac aelod newydd Kirsty sydd newydd gartrefu yn Llain fach, Aber-ffrwd.

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Paul a Norma Stephens, Blaenddol, ar farwolaeth chwaer yng nghyfraith Paul yn Redditch ar ôl cystudd hir.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion at Aneurin Morgan Y Bungalow, sydd yn Ysbyty Bron-glais ar hyn o bryd.



Hydref yng Nghwmrheidol. Llun: Maldwyn Pryse




# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 19 Medi, yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch gyda'r Cadeirydd, Richard Owen, yn y gadair, a'r cynghorwyr Delyth James, Shân James, Tegwyn Lewis, Dai Mason, ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Edwina Davies, Mel Evans, Kevin Jenkins a Gwenan Price.

Rhoddwyd croeso cynnes i Delyth James, aelod newydd o'r Cyngor.

Materion yn codi: Maes Seilo - penderfynwyd gofyn am gyfarfod safle gyda Russell Hughes-Pickering mor fuan â phosib i drafod y maes parcio y tu cefn i Faes Seilo. Tan-rallt, Pen-bont - roedd Dai Mason yn y broses o gasglu gwybodaeth gan drigolion lleol am sut yr arferid defnyddio'r tir ger Tan-rallt. Llwybr ger Gwelfor - roedd y Cadeirydd wedi derbyn llythyr gan un o drigolion Penrhyn-coch yn cwyno am gyflwr y llwybr ger Gwelfor. Roedd y Cadeirydd wedi cysylltu gyda Gareth Owen, y swyddog yng Nghyngor Ceredigion oedd yn gyfrifol am lwybrau, ac roedd ef wedi dweud fod cryn waith clirio wedi bod o gwmpas y llwybr. Yn awr roeddynt yn disgwyl i weld a fyddai o'n sychu rhywfaint ar ôl y gwaith a wnaed, er mwyn gweld beth fyddai'r ffordd orau o'i wella.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 17 Hydref, yn Festri Horeb gyda'r Cadeirydd, Richard Owen, yn y gadair, a'r cynghorwyr Edwina Davies, Delyth James, Shân James, Tegwyn Lewis, Dai Mason, Gwenan Price ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mel Evans a Kevin Jenkins.

Cydymdeimlwyd ag Edwina Davies ar golli ei mam yn ddiweddar.

Materion yn codi: Maes Seilo - roedd cyfarfod wedi'i drefnu rhwng Dai Mason a Russell Hughes-Pickering. Penderfynodd y Cyngor y byddai'n fodlon cyfrannu tuag at dacluso'r safle er mwyn ei wneud yn fwy addas fel maes parcio i drigolion y stad. Tan -rallt, Pen-bont - roedd Dai Mason wedi bod yn casglu tystiolaeth am y tir ger Tan-rallt; penderfynwyd y byddai Dai yn cydweithio gyda'r Cadeirydd ac eraill i lunio datganiad am y defnydd o'r tir. O leiaf, byddai hwnnw ar gael wedyn fel tystiolaeth i'r dyfodol. Car wedi'i barcio yn agos i Ger-y-llan - roedd y Clerc wedi holi'r heddlu am y car dan sylw, a oedd yn cael ei barcio am hydoedd ar y ffordd yn agos i Ger-y-llan. Yr ateb a gafodd oedd nad oedd yn fater i'r heddlu gan nad oedd y car mewn ardal waharddedig.

Sul y Cofio - fe wnaed y trefniadau arferol ar gyfer gwasanaeth Sul y Cofio.

Gŵyl Coed Nadolig Eglwys St Ioan - penderfynodd y Cyngor gymryd rhan eleni eto yn yr Ŵyl a gwnaed trefniadau ar gyfer y goeden.

Lle gwag ar y Cyngor - roedd y Cyngor wedi cael gwybod fod David Binks wedi penderfynu peidio â chymryd ei sedd ar y Cyngor. Penderfynwyd cyfethol Mrs Iona Davies, Llain Gwyddil, Cefn Llwyd yn ei le.

# Addysg Feithrin Rhydypennau

Aeth hanner can mlynedd heibio ers agor yr Ysgol Feithrin gyntaf yn yr ardal ar y 5ed o Fedi 1967, dan ofal y ddiweddar Gwerfyl Morgan, Talar Deg a Bethan Jones, Dryslwyn. Cynhaliwyd hi am dri bore'r wythnos mewn ystafell was yn yr Ysgol Gynradd, trwy garedigrwydd y Pwyllgor Addysg a chefnogaeth frwd y prifathro, Mr Eddie Jones. Chwech o blant fentrodd yno y bore cyntaf hwnnw, dau Gymro bach, sef Lleucu merch Gwerfyl a Dafydd Rhys, mab Bethan a phedwar o blant bach o gartrefi di-Gymraeg. Digon llwm oedd pethau ar y cychwyn heb gyllid a'r athrawon yn gofalu am gyfarpar trwy fenthyg a begera. Ond ni phallodd y brwdfrydedd a buan roedd angen sicrhau ystafell helaethach er mwyn gallu ymateb i'r galw ac fe gafwyd hynny trwy garedigrwydd Pwyllgor Neuadd Rhydypennau. Wrth i Gwerfyl adael ar enedigaeth Rhodri, daeth Gwenda James i'r adwy a llawer o rieni cefnogol iawn fel cynorthwywyr. Roedd angen sawl pâr o ddwylo gan fod yr unig doiled y tu allan, angen padell o ddŵr i olchi dwylo a gofyn clirio'r offer i fwthyn gwag yn y maes parcio ar ddiwedd pob sesiwn ac yn ôl yn y bore ym mhob tywydd.

Daeth amser newid aelwyd unwaith eto gan fod cynlluniau ar droed i wella'r Neuadd ac fe gafwyd cartref dros dro yn Ysgoldy'r Eglwys yn Llandre. Doedd y fangre ddim yn ddelfrydol, braidd yn ynysig, cyn dyddiau ffonau symudol ac eto heb gyfleusterau ar gyfer plant tair blwydd oed. Ond roedd yr Ysgol Feithrin yn ffynnu ac ar un cyfnod, ar ôl symud yn ôl i Neuadd Rhydypennau roedd dros ddeg ar hugain o blant ar y llyfrau a rhaid oedd eu rhannu yn ddwy garfan yn cwrdd ar wahanol adegau. Galwyd cyfarfod cyhoeddus i ethol pwyllgor i lywio'r ffordd ymlaen a sicrhau ei dyfodol.

Cadeirydd: Mrs Gwenda James
Trysorydd: Pamela Hughes
Ysgrifennydd: Mrs Brenda Jones
Aelodau eraill: Menna Morgan, Gwerfyl Morgan, Linda Davies, Elen Evans, Gwen Davies ac N. Griffiths

Roedd yna fywyd a chyffro yn yr ardal yr adeg hynny gyda theuluoedd ifanc Cymraeg eu hiaith yn ymgartrefu yn y stadau newydd ac fe ddaeth yr Ysgol Feithrin dan adain y Mudiad Meithrin Cenedlaethol pan sefydlwyd yn 1971. Cafwyd grantiau at dalu rhent a phrynu offer newydd a phob cefnogaeth gan y trefnwyr.

Gyda'r cynlluniau i godi Ysgol Gynradd newydd yn y pentref yn cael eu gwireddu, sicrhawyd bod yr hen ysgol yn cael ei chadw ac nid ei gwerthu, er mwyn ei throi yn Uned Feithrin. Mabwysiadwyd yr Ysgol Feithrin wirfoddol gan y Pwyllgor Addysg, gyda'r cyntaf yng Ngheredigion ac fe benodwyd Bethan yn athrawes a Gwenda yn gynorthwywraig gydnabyddedig. Dychwelodd yr Ysgol Feithrin yn ôl i'w chartref cyntaf gydag ystafell helaethach, cyfleusterau dan do, dodrefn a chyfarpar newydd a fan y Llyfrgell yn galw bob mis. Diwedd arbennig i chwe blynedd o wirfoddoli!



Phillys Richards, Eddie Jones, Lina Davies, Gwenda James, Mari Wyn, (Potter wedyn) Ann Jones 1979



Dosbarth 1974/5 gyda Nia Griffiths (Lewis wedyn), Bethan Jones a Gwenda James



Dosbarth 1979



David Rickets, Paul Swift a Dafydd Mason ca 1973
Llun: Bill Evans



Dengmlwyddiant 1977 Llun: Bill Evans



Sioned Evans, Rhian Mason, Jayne Henley a Sioned Jones ca 1973 Llun: Bill Evans



Y Cylch heddiw - Hayley Edwards (Arweinydd) a Lowri Powell gyda Jack Halestrap. Oliver Wright, a Charlie Bates

**Eirian Reynolds, Tech. S.P.**

**GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH**

Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant

**01970 820124**
**07709 505741**

**TACSI EDDIE**

Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch

01970 828 642
07790 961 226

ecodyfi

"Mae ecodyfi'n gweithio i adfywio'r gymuned a'r economi werdd ym Mro Ddyfi ac yn ehangach. Rydym yn chwilio am bobl i ymuno a'r Bwrdd ar hyn o bryd, yn enwedig trigolion o Geredigion a phobl ifainc.

Cysylltwch ag Andy Rowland i drafod y cyfle: **01654 703965** neu **andy.rowland@ecodyfi.org.uk**. Disgwylir cynigion/enwebiadau erbyn **26 Tachwedd**.

Etholir aelodau'r Bwrdd yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhelir nos Fawrth 28 Tachwedd am 7.30, yn y Clwb Bowlio, Machynlleth. Mae'n gyfarfod agored, felly bydd croeso cynnes i bawb. Eleni mae'r Fforwm sy'n dilyn y cyfarfod bir ffurfiol yn clywed cyflwyniadau gan rhai o'r bobl ifainc aeth i'r Eidal i fynychu Fforwm Ieuenctid UNESCO. Hefyd, yn trafod elfen newydd o Brosiect Pumlumon, bydd o ddiddordeb i ffermwyr."

## Tymor y Nadolig yng Nghapel y Garn

25 Tachwedd 10–12 o'r gloch
Paned a chroeso ar drothwy'r Adfent
Stondin amrywiol – elw tuag at Feiciau Gwaed Cymru a Chapel y Garn

14 Rhagfyr 6.30 o'r gloch
Gwasanaeth Nadolig Ysgol Rhydypennau

15 Rhagfyr 7.30 o'r gloch
Dathlu'r Nadolig, dan ofal Alan Wynne Jones
yng nghwmni Cymdeithas Lenyddol y Garn

17 Rhagfyr 10 o'r gloch
Gwasanaeth Nadolig y Plant
yng Nghapel Noddfa

17 Rhagfyr 5 o'r gloch
Gwasanaeth 'Y Gair a'r Geiriau'
Darlleniadau a cherddoriaeth ar gyfer y Nadolig

24 Rhagfyr 10 o'r gloch
Gwasanaeth dan arweiniad y Gweinidog, y Parch Ddr Watcyn James

25 Rhagfyr 9 o'r gloch
Oedfa deulu undebol ar fore'r Nadolig
dan arweiniad y Gweinidog

31 Rhagfyr 10 o'r gloch
Oedfa gymun undebol
dan arweiniad y Gweinidog



**Croeso cynnes i bawb**

# Ysgol Penrhyn-coch

**Babi Celt**
Cafodd plant y Cyfnod Sylfaen ymwelydd arbennig - sef Celt Roberts, Fferm Mynydd Gorddu, a'i fam Elen ac fe fuon nhw yn gwylio ac yn trafod sut oedd gofalu amdano. Cafon nhw sesiwn wrth eu boddau yn rhoi bath iddo! Wel am hwyl- diolch iti Celt ac i Mam am ymweld â ni!

**CLWB YR URDD**
**Gosod blodau**
Bu aelodau yr Urdd - plant y Cyfnod Sylfaen - yn dysgu oddi wrth Glenys Morgan am sut i wneud addurn bwrdd ar y thema Diolchgarwch. Buon nhw'n torri blodau, yn dewis addurniadau ac yn creu trefniant taclus - diolch Glenys am arddangos.

**Addurno cacennau**
Cafodd aelodau CA2 sesiwn flasus iawn yn addurno cacennau a melysion Calan Gaeaf - diolch i Shan James am baratoi a chynorthwyo'r plant.

**Diwrnod heb drydan !**
Penderfynodd plant y Cyngor Gwyrdd drefnu diwrnod heb drydan i geisio cael yr ymdeimlad o adeg yr Ail Ryfel Byd i blant a theuluoedd yn y cyfnod yma. Buodd y plant yn cofnodi am wythnos cyn hynny cyfanswm dyddiol ein defnydd o drydan er mwyn cael cymharu a fyddai gwahaniaeth yn y diwrnod yma. Roedden nhw wedi cytuno na fyddai'n bosib stopio'r gogyddes rhag defnyddio trydan ond ar y llaw arall roedden nhw moen paratoi cinio syml gan ystyried dogni i blant CA2 ac felly gyda chymorth Mrs Watkins cafodd pawb ddewis brechdan jam neu gaws, ffrwyth neu darn o gacen ffrwythau. Penderfynwyd ar reol arall hefyd - doedd dim un aelod o'r staff yn medru defnyddio'r tegell o gwbwl yn ystod y dydd!! Diolch fyth bod ambell i un wedi dod a fflasg ganddyn nhw! Roedd hi'n ddiwrnod o arbrofi, dysgu, cyd-weithio a chyd dynnu - dysgwyd llawer am orddefnyddio a gwastraffu heb eisiau.

**Sbri diri a Sgiliau aml ddefnydd**
Roedd rhaid ymweld â Mr Urdd yn ngŵyl Sbridiri yn Ysgol Pen-glais –canu, bach o ddawnsio a joio!!

Cafodd disgyblion blwyddyn 1 a 2 fore o gadw'n heini yng ngweithgareddau aml sgiliau yn y Brifysgol –pêl fasged, rygbi… digon o gêmau hwyliog!

**Eco Sgolion**
Mae wedi bod yn hanner tymor brysur iawn i'r Plant gwyrdd oherwydd daeth Bethan Phillips swyddog Eco Sgolion i asesu'r Ysgol am y drydydd faner werdd. Roedd yn rhaid paratoi tystiolaeth ar Ynni a Dŵr fel dau faes craidd ac wrth gwrs dangos yr holl brofiadau mae'r Ysgol wedi eu gwneud eisoes ar y meysydd eraill. Roedd yn rhaid i'r criw werthu yr hyn maent wedi ei wneud fel monitro gwastraff dŵr pob dosbarth ar ddiwedd pob dydd a chymharu data, datblygiad yng Ngardd yr Ysgol a sut rydyn wedi bod yn hyrwyddo Byw'n iach. Llwyddwyd i ennill y drydedd faner, llongyfarchiadau i chi i gyd.

**Ysgol Greadigol**
Y tymor nesaf mi fyddwn yn dechrau ar y flwyddyn cyntaf o'r Ysgol greadigol. Prosiect sy'n defnyddio doniau pobl broffesiynol greadigol fel spardun i'r plant yn eu haddysg er mwyn iddynt greu a datblygu eu doniau hwy. Cyfnod cyffrous iawn ac edrychwn ymlaen i'ch hysbysu o'r datblygiadau yn y dyfodol.

**Sioe Arad Goch**
Gwyliwyd Sioe gyfoes iawn gan actorion profiadol ar y thema Bwlian-enw'r sioe oedd 'Nid fi'-roedd yna dri chymeriad yn dynwared sefyllfaoedd bob dydd mewn Ysgol. Cafwyd gweithdy a thrafodaeth gyda'r actorion am y teimladau gwahanol brofodd y tri chymeriad.

**Diolchgarwch**
Aeth y Cyfnod Sylfaen i ymweld â'r Parchedig Lyn Dafis yn yr eglwys am neges y diolchgarwch tra buodd disgyblion CA2 yng Nghapel Horeb gyda'r Parchedig Peter Thomas. Cyflwynodd y ddau dosbarth neges yn seiliedig ar yr Ail Ryfel Byd - braf gweld y plant yn llefaru a canu.

**Cyfnod Sylfaen ar y fferm**
Roedd yna gyffro wrth i Lleucu a Gruffudd ap Llywelyn wahodd eu dosbarthiadau i gartref Mam-gu a Tad-cu Gellinebwen. Cafwyd croeso a phrofiadau diddorol wrth wylio'r gwartheg yn cael eu godro ac i ddysgu mwy am ddefnydd y llaeth wrth iddo gael eu droi mewn i gaws! Cafodd pawb flas o'r caws arbennig a mwynheuodd pawb de blasus yn y Tŷ fferm! Diolch am y croeso ac am yr addysg amaethyddol!

**Tesco**
Yn dilyn ymweliad y fferm aethpwyd ar drip tra gwahanol i Tesco - archfarchnad fawr yn y dre i'r sesiwn 'Fferm Ii'r fforc'- fe fuodd y disgyblion ymhob twll a chornel o'r siop, cafwyd blasu mwy o gaws a chig ac i goroni'r cwbwl fe fuon nhw wrth y til- 'bip-bip'!











# Ysgol Craig yr Wylfa

**Dai Jones**
Daeth Dai Jones MBE Llanilar ar ymweliad â'r Ysgol i drafod am ei daith 8 awr fel plentyn ar y trên o Lundain i Lanilar yn y flwyddyn 1946. Wel am ddyn aml dalentog ac amryddawn. Sgwrsiodd am fywyd ar ôl yr Ail Ryfel Byd yng nghefn gwlad Llanilar ac yn Llundain. Fe wnaeth e drafod hefyd am ei hoff atgo. Llenwodd yr ystafell â'i straeon a'i gwmni bendigedig. Cafodd y disgyblion gyngor hyfryd ganddo ar ddiwedd y sgwrs, "Gwnewch eich gorau. Daw rhywbeth o rywbeth, ond, ddaw dim o ddim." Diwrnod bythgofiadwy!

**@ebol-lawnsio llyfr Nadolig Cwtshlyd Douglas**
Buodd cwmni llyfrau @atebol a'r awdures Mared Llwyd yn lawnsio ei chyfieithiad hi o *Nadolig Cwtshlyd Douglas* i blant y Cyfnod Sylfaen – cawsant fore cyffrous iawn yn cael clywed y stori am y tro cyntaf yn ogystal a rhoi eu barn nhw i'r awdures - diolch i'r cwmni am y cyfle ac am y profiad.

**Gwasanaeth Nadolig Ysgol Penrhyn-coch**
Gwasanaeth Nadolig ychydig yn wahanol i'r arfer sydd eleni yn Ysgol Penrhyn-coch! Bydd 'Dilyn y Seren' yn ein harwain yn llythrennol ar daith drwy bentref Penrhyn-coch, lle bydd disgyblion yn adrodd stori'r geni a chanu carolau mewn lleoliadau gwahanol ar hyd y pentref, yn cynnwys ymweliadau gyda'r parc, y cae pêl droed, Eglwys Sant Ioan, Garej Tŷ Mawr a'r ysgol! Oherwydd natur y daith, mae tocynnau yn brin, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn arbed lle ar gyfer y perfformiad unigryw hwn drwy gysylltu gyda'r ysgol! Edrychwn ymlaen at eich cwmni ar Ragfyr 6 ed a 7fed am 6.30yh. Rhif ffôn yr ysgol yw 01970 828566.

**Sbri Di-ri'r Urdd**
Bu plant y Cyfnod Sylfaen yn Sbri Di-ri'r Urdd ym Mhen-glais ar ddechrau'r mis. Roeddent wedi mwynhau cyd-ganu a dawnsio gyda phawb yna. Am fore llawn hwyl gyda Mr Urdd a'i griw!



**Diolchgarwch**
Ar gyfer ein Cwrdd Diolchgarwch ysgol eleni, casglwyd bwyd ar gyfer Stordy Jubilee, Penparcau. Cynhaliodd y plant wasanaeth Cwrdd Diolchgarwch arbennig. Diolch i bawb a gyfrannodd fwyd tuag at yr elusen. Aeth dau ddisgybl o gyfnod allweddol 2, gyda Miss Ann i ddosbarthu'r bwyd i'r Stordy ym Mhenparcau.

**Parti Calan Gaeaf**
Ar ôl ysgol ar y diwrnod olaf o'r hanner tymor cyntaf, cynhaliwyd parti Calan Gaeaf. Roedd y plant wedi gwisgo i fyny yn frawychus iawn ac wedi mwynhau'n fawr.




**BANC BRO LLANFIHANGEL GENAU'R-GLYN**

**NOSON NADOLIGAIDD 5 SEREN**

★ ★ ★ ★ ★

**Bethlehem, Llandre**
**Nos Wener Tachwedd 24ain**
**6.30**

**DIODYDD TYMHOROL**
**STONDINAU BWYD,**
**POTELI A LLYFRAU**
**ENILLWYR CLWB 50**
**RAFFL**
**CERDDORIAETH**

Mynediad: Oedolion £3.
Plant am ddim

Cyflwynir yr elw i gronfa Uned Cemotherapi Ysbyty Bron-glais
Dewch o bedwar ban y fro i gefnogi



**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**
Perchennog: Lawrence Kelly
**AR AGOR**
Llun – Sadwrn
**7 y bore – 9 yr hwyr**
Sul
**7 y bore – 7 yr hwyr**
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
**01970 828312**



**GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS**
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924



**GWASANAETH CYFIEITHU**
**Linda Griffiths**
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
**01970 828454**
lindagriffiths01@btinternet.com



*Crefftau Pennau*
*Coffi Boreuol*
*Byrbrydau Poeth neu Oer*
*Cinio*
*Te Prynhawn*
*Crefftau Ac Anrhegion*
Ar gau ar ddydd Llun
Brecwast ar gael
01970 820 050

# Ysgol Rhydypennau

**Diolchgarwch**

Ar ddydd Iau, 26 Hydref, cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol. Yn dilyn ein trefn arferol, aethpwyd allan o neuadd yr ysgol ac i Eglwys Genau'r-glyn, Llandre ble ymunodd nifer o drigolion y gymuned â ni. Yn ystod ein gwasanaeth cafwyd gwledd o ganu a llefaru graenus.

Braf hefyd oedd mwynhau cwmni cyn athrawes yr ysgol, Mrs Helen Jones, am iddi gytuno i fod yn siaradwr gwadd ein gwasanaeth eleni.

Hoffwn fel ysgol ddiolch i aelodau'r Eglwys - yn enwedig Mr Roger Haggar - am hwyluso'r trefniadau yn ystod yr wythnosau'n arwain at ein gwasanaeth. Diolch i Mrs Wendy Jones, staff y gegin a Phwyllgor yr Henoed am drefnu'r lluniaeth blasus yn dilyn ein gwasanaeth. A diolch hefyd i bawb am eu cyfraniadau haul ar gyfer ein helusen eleni - sef 'Heart Foundation Cymru'

**Ymweliad**

Fe ddaeth P.C. David Goffin a Karen Roberts (Swyddog Gwasanaeth Tân) i ymweld â phlant yr ysgol rhai diwrnodau cyn cau am yr hanner tymor. Rhybuddiwyd ac atgoffwyd y plant am beryglon cyffredinol noson Tân Gwyllt a Chalan Gaeaf. Diolch i'r ddau am eu cyngor doeth.

**Mynd am Dro**

Fe aeth plant y Meithrin a'r Derbyn ar daith mewn bws. Pwrpas y daith oedd cyrraedd Coedwig Gogerddan. Yn y goedwig, gwelwyd nifer o bethau diddorol iawn yn cynnwys bywyd gwyllt a phlanhigion amrywiol. Cafwyd cyfle hefyd i arsylwi ar yr holl ddail sydd wedi disgyn o'r coed yn ystod yr hydref a bu'r plant wrthi'n ddiwyd yn cymharu eu siapiau a'u lliwiau.

**Noddi Hoci**

Diolch o galon i Alison Jones am gynnig noddi tîm hoci'r ysgol. Mae'r cit yn edrych yn smart iawn!

**Aelwyd yr Urdd**

Mae nosweithiau Aelwyd yr Urdd bellach wedi ail ddechrau ar ôl yr hanner tymor. Rydym yn cwrdd nawr bob nos Iau ac mi fydd y gweithgareddau difyr yn parhau tan y Pasg.

**Clwb Cant**

Dyma ganlyniad fis Tachwedd

1af £25 Emyr Morgan, Llys Alaw, Bow Street.

2il £15 Delyth Morgan, Pwll-glas.

3ydd £10 Llinos Bonsall, Ysgol Rhydypennau.



Cit hoci



Diolchgarwch



Derbyn yn y goedwig



Meithrin yn y goedwig



Derbyn yn y goedwig



Ymweliad yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân



Diolch Helen Jones

# Ysgol Pen-llwyn

**Ymweliad â'r fferm**
Bu dosbarth 1 ar ymweliad â fferm Cwmwythig yn ddiweddar a chawson fore diddorol iawn yno.

**Ymweliad â Tesco**
Bu dosbarth 1 yn ogystal ar ymweliad âTesco fel rhan o'n gwaith dosbarth. Croesawyd ni yno gan aelod o staff. Buom yn addurno hetiau, yn teimlo mor oer oedd yr oergell, ac yna'r rhewgell. Cawsom weld pysgodyn yn cael ei lanhau a chawson hwyl fawr wrth sganio nwyddau tu ôl i'r til! (Diolch i'r cwsmeriaid amyneddgar!)

**Trên bach y faciwîs**
Bu dosbarth 2 a 3 ar drên bach Cwmrheidol fel rhan o'u hastudiaeth ar yr Ail Ryfel Byd. Cawsant gyfle i glywed caneuon o adeg y Rhyfel, blasu pecyn bwyd tebyg i adeg y dogni a gwisgo i fyny yng ngwisg y 40au. Bu'n brofiad gwerthfawr.

**Gŵyl Aml-sgiliau**
Cyffrous iawn fu'r bore gawsom yng nghaeau chwarae'r Brifysgol. Cawsom lawer o hwyl a bwrlwm yn blasu pob math o chwaraeon (pêl-droed, rygbi, beicio, dawnsio) gan ddod yn ôl yn barod i ginio.

**Ymweliad y Gwasanaeth tân a'r heddlu**
Cawsom ein dysgu am beryglon tân gwyllt a sut i gadw 'n saff ar y noson.

**Gwasanaeth Diolchgarwch**
Cynhaliwyd ein gwasanaeth diolchgarwch yng Nghapel Pen-llwyn gyda'r tri dosbarth yn cymryd rhan drwy ganu , gweddïau a chyflwyniadau llafar. Yna bu'r Parchg Ifan Mason Davies yn rhoi gair i'r plant am ragoriaeth ffrwythau gwir dros ffrwythau esgus. Diolch yn fawr am ddod atom.


Taith Ifaciwis


Trên bach y Rheidol


Dai Jones, Llanilar



Ras hwyl


Mam-gu Iris


Gemau o'r cyfnod


Y Parchg Ifan Mason Davies yn y gwasanaeth diolchgarwch


Taith i Tesco



# Tasg y Tincer

Daeth pentwr o luniau trwy'r drws yn ystod mis Hydref – diolch i Caio Llywelyn Mason Lewis, Tal-y-bont; Seren Lockyer, Penrhyn-coch; Dylan Herron, Bow Street; Betsi ac Elsi Magor, Llanfyllin; Cennydd Davies, Llanilar; Elis Wyn Jenkins, Penrhyn-coch; Miriam Llwyd, Llandre.

Dy enw di, Elis, ddaeth o'r het y tro hwn. Llongyfarchiadau! Daliwch ati, bawb. Mae eich gwaith bob tro yn werth ei weld!

Gobeithio i bawb fwynhau'r gwyliau hanner tymor. Ces i daith i sw Caer, a chael amser hyfryd. Bydd rhaid mynd eto'n fuan am nad oedd y pengwiniaid yno y tro hwn. Maen nhw wrthi'n adeiladu cartre a phwll nofio newydd iddyn nhw – dwi'n siŵr bydd y lle newydd yn smart iawn! Fuoch chi'n gwylio'r tân gwyllt ar noson Guto Ffowc ddechrau'r mis? Cawson ni sioe werth chweil ar Gae Piod, Bow Street, diolch i'r Clwb Pêl-droed!

A hithau'n ganol Tachwedd, mae'n amser apêl Plant mewn Angen unwaith eto. Falle eich bod chi'n cael mynd i'r ysgol yn eich pyjamas, neu'n cynnal digwyddiad i godi arian yn eich pentre. Dwi'n siŵr y bydd rhai ohonoch chi'n mynd i'r ysgol yn eich dillad Pydsi, neu'n coginio cacennau Pydsi er mwyn eu gwerthu. Yn 2016, codwyd dros £2.5 miliwn i'r elusen, a hynny yng Nghymru'n unig. Ffantastig!

Y mis hwn, lliwiwch y llun o Pydsi. Pa liwiau fydd ar ei sgarff, tybed? Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP, erbyn Rhagfyr 1af. Ta tan toc!




Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru

CYMRAEG



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

MYNACH GARDEN MAINTENANCE
**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
**Ffoniwch Meirion:**
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

**Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch**
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
*Rhif 403 | TACHWEDD 2017*